Y Gwir Anrh/Rt Hon Carwyn Jones AC/AM
Prif Weinidog Cymru/First Minister of Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: FM/00514/14

David Melding AC
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

16eg Mai 2014

Annwyl David,

**Anghymhwyso person rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 2 Mai 2014, ynghylch ymchwiliad y Pwyllgor i anghymhwyso person rhag bod yn aelod o Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn eich llythyr fe ofynnoch am wybodaeth ynglŷn â'r sail resymegol ar gyfer cynnwys sefydliadau yn yr Atodlen i *Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2010*, gan gynnwys manylion am unrhyw feini prawf a gafodd eu defnyddio a sut y cawsant eu dewis.

Yn ôl yr hyn sydd wedi'i ddatgan ym memorandwm Llywodraeth Cymru a gafodd ei gyflwyno i'r Pwyllgor, mae'r Gorchmynion blaenorol wedi anelu at anghymhwyso:

- Deiliaid swyddi sy'n cael eu hariannu'n gyfan gwbl neu'n rhannol gan Lywodraeth Cymru. Roedd hynny'n cynnwys swyddi â chyflog, swyddi pensiynadwy, a rhai swyddi y telir ffi amdanynt, ond nid oedd yn cynnwys swyddi y telir treuliau yn unig ar eu cyfer. Ni ddylai swydd sydd â chyflog o lai na £10,000 y flwyddyn fod yn destun anghymhwysiad fel rheol.
- Penodiadau a gafodd eu gwneud, eu cymeradwyo neu eu cadarnhau gan y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol, neu benodiadau yr oedd ganddynt hawl statudol i fod yn destun ymgynghori yn eu cylch.
- Deiliaid swyddi y byddai eu swyddogaethau'n peri gwrthdrawiad buddiant pe baent yn cael eu hethol fel Aelodau'r Cynulliad.
- Deiliaid swyddi nad oeddent, neu nad oeddent i bob golwg, yn ddiduedd yn wleidyddol.

Ar y cyfan, mae'r meini prawf hyn ar gyfer anghymhwyso person rhag bod yn aelod yn gyson â'r rhai hynny sy'n cael eu defnyddio ar gyfer Tŷ'r Cyffredin a deddfwrfeydd datganoledig eraill. Ond, nid yw'r rhestrau yng Ngorchmynion Anghymhwyso'r Cynulliad yn adlewyrchu'r swyddi a'r gyflogaeth hynny a all beri anghymhwysiad sy'n gymwys o dan Ddeddf Anghymhwyso Tŷ'r Cyffredin 1975. Y sail resymegol am hyn yw nad yw'r Cynulliad yn gorff  y gellir ei gymharu â Thŷ'r Cyffredin, ac felly mae'r rhestrau wedi'u haddasu i ymateb yn well i sefyllfa unigryw Cymru a'i Chynulliad fel rhan o'r Deyrnas Unedig.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8198
ps.firstminister@cymru.gsi.gov.uk

Cyn pob un o etholiadau'r Cynulliad, caiff y Gorchymyn diweddaraf ei adolygu a'i ddiweddaru, er mwyn, er enghraifft, gael gwared ar y swyddi hynny sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn cyfredol, ond sydd eisoes wedi'u diddymu, neu y mae eu teitlau wedi newid. Mae pob un o adrannau Llywodraeth Cymru hefyd yn ystyried a yw unrhyw swyddi newydd wedi'u creu y mae'n bosibl bod angen eu hanghymhwyso ar sail y meini prawf a amlinellir uchod. Maent hefyd yn adolygu'r swyddi sydd wedi'u cynnwys yn y Gorchymyn Anghymhwyso diwethaf, er mwyn ystyried a fyddai eu cadw ar y rhestr anghymhwyso'n gyfyngiad diangen. Gofynnir hefyd am gyngor cyfreithiol ar yr holl gynigion i addasu'r rhestr eithrio. Mae'r broses hon yn sicrhau bod y rhestrau'n cydymffurfio â'r meini prawf anghymhwyso i'r graddau helaethaf posibl. Fodd bynnag, o ystyried maes eang y meini prawf, mae'n bosibl y gellid disgwyl gwahaniaethau yn y modd y caiff swyddi neu fathau o gyflogaeth ar y rhestrau eu trin i ryw raddau.

Fel y nodwyd ym memorandwm Llywodraeth Cymru ar gyfer y Pwyllgor, ein barn yw nad yw'r strwythurau presennol ar gyfer eithrio personau rhag bod yn aelodau o'r Cynulliad yn adlewyrchu eu *raison d'être* yn iawn. Felly, rydym yn awyddus i weld sut y gellir newid y rheolau a'r egwyddorion sy'n sail i anghymhwyso, er mwyn gwella cyfranogiad ymgeiswyr, ac ar yr un pryd cadw ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y ffordd y mae etholiadau'r Cynulliad yn cael eu cynnal. Bellach, mae'n bryd inni ystyried y meini prawf penodol y dylid eu cael ar gyfer anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Cynulliad, gan roi ystyriaeth i'r egwyddorion cyntaf.

Edrychaf ymlaen at argymhellion y Pwyllgor ar sut i wella a chysoni'r rheolau'r sy'n sail i anghymhwyso person rhag bod yn aelod o'r Cynulliad. Bydd unrhyw newidiadau i'r rheolau a gynigir yn cael eu hystyried o ddifrif gan Lywodraeth Cymru pan fyddwn yn dechrau gweithio ar gynnwys Gorchymyn Anghymhwyso nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2016.

Yn gywir



**CARWYN JONES**